# Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 08-08 (p4) :  12 Mawrth 2008**

### Diben

1. Darparu memorandwm ysgrifenedig byr gan Brif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yn dystiolaeth i Bwyllgor a Menter Cynulliad Cenedlaethol Cymru.  Gofynnodd y Pwyllgor am y dystiolaeth am ei fod yn dymuno archwilio'r materion a godir yn adroddiad blynyddol Estyn ynglyn â chyllid ysgolion, adeiladau ysgolion a'r agenda sgiliau.

### Cefndir

2. Mae adroddiad blynyddol Estyn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Medi 2006 a mis Awst 2007.  Mae'n disgrifio safonau, ansawdd addysg a hyfforddiant, ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn y sampl o ddarparwyr addysg a arolygwyd gennym (un o bob chwe darparwr) yn ystod y cyfnod hwnnw yng Nghymru.

3. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn **www.estyn.gov.uk.**

4. Mae'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati yn cynrychioli'r dystiolaeth a'r barnau a wnaed gan Estyn trwy arolygiadau a gwaith cylch gwaith yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2006 a mis Awst 2007.

### Cyllid ysgolion

5.  Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau y trefnwyd eu bod ar gael iddynt ar gyfer darparu staff, adnoddau dysgu ac adeiladau.  Mae nodweddion arfer dda yn yr ysgolion hyn yn cynnwys:

monitro ac adolygu yn systematig y modd y maent yn gwario arian i wneud yn siwr eu bod yn bodloni anghenion a gofynion pob disgybl; a

gwneud defnydd da o gyfleoedd cyllid o sefydliadau allanol i gefnogi hyfforddiant staff;

6. Lle ceir diffygion, mae'r rhain yn cynnwys:

diffyg her gan gyrff llywodraethol ysgolion ynglyn â chael gwerth am arian; ac

adeiladau ysgolion sydd mewn cyflwr gwael ac nad ydynt yn bodloni anghenion addysgu a dysgu.

7. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn defnyddio cyllid ac adnoddau sydd ar gael yn dda.  Mae llawer o'r ysgolion hyn yn elwa'n fawr ar gael bwrsar neu swyddog cyllid effeithiol sy'n gallu rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad arbenigol ar faterion ariannol.

8. Fodd bynnag, mewn lleiafrif bach o ysgolion uwchradd, mae costau addysgu uchel sy'n ymwneud â nifer fawr o staff hyn wedi golygu bod baich sylweddol ar y gyllideb.  Gall hyn gael sgil effeithiau mewn mannau eraill, er enghraifft, llai o arian i'w wario ar adnoddau addysgu eraill, a grwpiau addysgu mwy.  Hefyd, mae nifer fawr o ddosbarthiadau bach yn y chweched dosbarth mewn ysgolion.  Nid yw ysgolion yn gweithio digon gyda'i gilydd neu gyda cholegau AB i drefnu dosbarthiadau chweched dosbarth mor economaidd ag y gallent.

### Adeiladau ysgol

9. Mae tystiolaeth o adeiladau anfoddhaol mewn lleoliadau ar gyfer plant o dan bump oed.  Mewn tua chwarter o'r lleoliadau na chynhelir ac mewn rhai ysgolion, mae diffyg cyfleusterau awyr agored addas yn cyfyngu datblygiad corfforol plant.

10. Yn y pedwar gwasanaeth mynediad awdurdod lleol a arolygwyd eleni, nodwyd diffygion pwysig gan gynnwys oedran, natur a chyflwr llawer o adeiladau ysgol, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, sy'n cyfyngu ystod y cyfleusterau addysgol y gall ysgolion eu darparu.

11. Nid yw'r adeiladau mewn ysgolion uwchradd yn aml cystal ag y dylent fod.  Dim ond 56% o ysgolion gafodd radd 1 neu radd 2 am eu hadeiladau.  Mewn tair ysgol, roedd yr adeiladau yn cynnwys diffygion mewn meysydd pwysig (gradd 4).

12. Mae bron i hanner yr ysgolion uwchradd y gwnaethom eu harolygu yn cynnwys agweddau gwael o ran yr adeiladau.  Mae'r rhain yn cynnwys:

mannau yn yr awyr agored sy'n anwastad neu'n fwdlyd, sy'n golygu bod plant yn cael eu dillad a'u hesgidiau yn fudr yn yr ysgol mewn tywydd gwlyb;

mannau y tu allan y mae angen eu hailaddurno ac weithiau eu hatgyweirio;

mannau addysgu bach ar gyfer rhai pynciau neu labordai anaddas,

ystafelloedd technoleg neu gyfleusterau chwaraeon;

adeiladau nad ydynt yn hygyrch i rai pobl ag anableddau corfforol; a

thoiledau a chyfleusterau ymolchi heb sebon, papur toiled na chloeon ar giwbiclau.

13. Hefyd, nid yw llawer o'r toiledau yn cael eu gwirio gan staff yn ystod y dydd ac nid oes digon o doiledau ar gyfer nifer y disgyblion yn yr ysgol.  Os nad yw disgyblion yn hapus â thoiledau'r ysgol, maent yn fwy tebygol o beidio ag yfed na bwyta digon yn ystod y dydd fel nad oes angen iddynt eu defnyddio.

14. Mae rhai ysgolion uwchradd wedi gwella eu cyfleusterau yn fawr trwy wneud ceisiadau llwyddiannus am grantiau neu godi arian nawdd fel arall, er enghraifft, trwy fynd at Gyngor Chwaraeon Cymru neu'r coleg addysg bellach lleol.  Mae rhai hefyd yn arbed arian trwy gynnwys staff, rhieni a disgyblion wrth ailaddurno ystafelloedd dosbarth.

15. Mae gan rai ysgolion uwchradd ganolfannau newydd neu ganolfannau wedi'u hadnewyddu ar gyfer y celfyddydau perfformiadol a chyrsiau galwedigaethol, a chyfleusterau chwaraeon ardderchog, weithiau gyda phwll nofio neu gaeau pob tywydd.

16. Fe wnaethom gynnal rhywfaint o ymchwil yn 2006-2007 ar adeiladau ysgol a'u heffaith ar berfformiad disgyblion.  Canfuom nad yw llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi penderfynu faint o ysgolion y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol ar adeg pan fo niferoedd y disgyblion yn gostwng yn gyson oherwydd gostyngiad yng nghyfradd y genedigaethau.

17. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol wedi amcangyfrif bod ôl-groniad anferth o ryw £640 miliwn mewn gwaith atgyweirio a chynnal yn eu hysgolion.  Nid yw hen adeiladau ysgol sydd mewn cyflwr gwael yn bodloni anghenion addysgu a dysgu cyfoes.

18. Bron ym mhob ysgol sydd ag adeiladau newydd neu adeiladau wedi'u hadnewyddu, rydym wedi gweld gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a safonau gwaith disgyblion.  Mewn rhai achosion, gwelwyd gwelliant sylweddol mewn safonau, yn enwedig mewn rhai ysgolion mewn cymunedau sydd â lefel uchel o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd.  Caiff y gwelliannau yn ansawdd yr adeiladau effaith fuddiol ar forâl staff ac mae hyn yn aml yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad disgyblion.

19. Fodd bynnag, nid yw adeiladau gwell ynddo'i hun o angenrheidrwydd yn gwella perfformiad disgyblion ac addysgu.  Mae arweinyddiaeth a rheolaeth dda hefyd yn dylanwadu'n fawr ar lefelau gwella.

## Lleoedd ysgol

20. Yn gyffredinol, mae arweinyddiaeth strategol dros ad-drefnu ysgolion ledled Cymru yn wan.  Dim ond tua thraean yr awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi sefydlu a dechrau gweithredu cynlluniau strategol clir sy'n dangos y modd y mae arnynt eisiau moderneiddio eu hystâd ysgol, gan gynnwys cael gwared ar leoedd ysgol heb eu llenwi a gwella adeiladau neu gau ysgolion.  Mae hyn yn golygu bod y broblem yn ymwneud â lleoedd heb eu llenwi ac adeiladau ysgol sy'n cael eu cynnal yn wael yn gwaethygu mewn llawer o rannau o'r wlad oherwydd nad yw awdurdodau lleol yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r broblem.

21. Roedd diffygion pwysig ym mhob un o'r pedwar gwasanaeth mynediad awdurdod lleol a arolygwyd eleni, gan gynnwys cynnydd araf iawn wrth ddelio â'r broblem yn ymwneud â lleoedd heb eu llenwi a chau neu ad-drefnu ysgolion lle nad oes digon o ddisgyblion.  Gall gwahanol fodelau o ad-drefnu ysgolion weithredu'n llwyddiannus iawn, gan gynnwys modelau fel clystyru ac ysgolion ardal.  Gall technoleg gwybodaeth a chyfathrebu helpu staff yn y mathau hyn o sefydliadau i weithredu yn fwy effeithiol ac effeithlon.  Mewn rhai rhannau o Gymru, mae ysgolion wedi'u trefnu yn ffederasiynau lle rhennir trefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli.  Mae'r trefniant hwn wedi ateb y cyfyng-gyngor i'r rheiny sydd am ddiogelu cryfderau ysgolion bach a'u hamddiffyn rhag bod ar wahân.

22. Mae awdurdodau lleol sy'n gwasanaethu ardaloedd gwledig wedi bod yn arbennig o araf wrth fynd i'r afael â'r broblem yn ymwneud ag ysgolion â lleoedd dros ben a lleoedd heb eu llenwi.  Mae angen i'r awdurdodau lleol hyn ystyried sut y gallant ddarparu addysg o ansawdd da yn agos at ble mae disgyblion yn byw a dod o hyd i ffyrdd o leihau lleoedd heb eu llenwi.

23. Mae cost darpariaeth addysg yn yr awdurdodau gwledig hyn yn uwch na'r hyn sy'n angenrheidiol oherwydd eu bod ar hyn o bryd yn cynnal nifer fawr o ysgolion bach sy'n anodd eu rhedeg.  Mae un awdurdod lleol gwledig wedi amcangyfrif bod peidio â mynd i'r afael â'r broblem yn ymwneud â lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion yn costio dros £5 miliwn bob blwyddyn.  Nid yw hyn yn ddefnydd effeithlon o arian cyhoeddus.

24. Bu'n rhaid i rai awdurdodau lleol mewn ardaloedd adeiledig roi'r gorau i ddefnyddio rhaglenni moderneiddio uchelgeisiol oherwydd ymgynghori a chyfathrebu gwael ag ysgolion a'r cyhoedd, a'r ffaith nad oedd aelodau etholedig yn cefnogi cynlluniau eu cyngor eu hunain.

25. Mae'r cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd yn ne ddwyrain Cymru yn wael.  Mae cynnydd mawr yn nifer y lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ond nid oes digon o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.  Pan fydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llawn, mae gan un awdurdod lleol bolisi o gynnig lleoedd mewn dosbarthiadau dechreuwyr ac nid dyma sydd ei angen ar rieni na disgyblion.

### Agenda sgiliau

26. Yn y sector cynradd, mae mwyafrif y disgyblion yn parhau i ddatblygu medrau allweddol da ar draws y cwricwlwm er bod safonau yn y dangosydd craidd (Cymraeg/Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) wedi gwastadu, yn yr un modd â'r hyn a geir mewn addysg yn y sector uwchradd.  Mewn ysgolion cynradd, mae rhai diffygion o hyd mewn medrau allweddol mewn gwersi mewn tua thraean o'r ysgolion a arolygwyd gennym.  Hefyd, nifer fach iawn o wersi (7%) a gafodd radd 1 ar gyfer medrau allweddol.  Medrau dwyieithog disgyblion yw'r maes gwannaf o bell ffordd o hyd mewn ysgolion lle caiff y Gymraeg ei haddysgu yn ail iaith.

27. Mewn ysgolion uwchradd, mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r safonau yn gymysg.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos

medrau siarad a gwrando da. Mewn tua thraean o ysgolion, mae disgyblion yn dangos medrau gwrando rhagorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ac yn ysgrifennu'n dda, ond mae rhai yn rhagorol. Mewn gwersi cyfrwng Cymraeg, mae mwyafrif y disgyblion yn dangos medrau da mewn siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Mewn dwy o bob 10 ysgol, mae disgyblion yn cyflawni safonau rhagorol mewn siarad a gwrando, ond nifer fach ohonynt sy'n cyflawni safonau rhagorol mewn darllen ac ysgrifennu. Mae diffygion pwysig mewn medrau llythrennedd Cymraeg mewn tua un o bob deg o'r holl ysgolion. Mae'r rhain mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf.

28. Mae gan fwyafrif o ddisgyblion fedrau da mewn cymhwyso rhif ac mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm. Mae safonau yn well yn y chweched dosbarth, er mai nifer fach o ddisgyblion mewn unrhyw gyfnod allweddol sydd â medrau rhagorol mewn cymhwyso rhif neu TGCh.

29. Mae merched yn gwneud yn llawer gwell na bechgyn ym mhob cyfnod o'u haddysg. Yng Nghymru, mai bechgyn yn ennill llai o gymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfwerth nag yn unman arall yn y Deyrnas Unedig (DU). At ei gilydd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yng Nghymru (a Lloegr), mae'r bwlch rhwng yr hyn y mae merched a bechgyn yn ei ennill yn ehangu. Erbyn iddynt fod yn 14 oed, nid yw nifer sylweddol o fechgyn yn dal i fyny â llawer o'r gwaith ac maent yn profi ymdeimlad cynyddol o rwystredigaeth a methiant.

30. Mewn chwech o'r saith uned cyfeirio disgyblion, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da neu dda iawn yn eu medrau dysgu a'u medrau allweddol.

31. Mewn Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, mae dysgwyr yn datblygu medrau pwysig ar gyfer cyflogaeth ac yn dysgu sut i wneud dewisiadau o ran ffordd iach o fyw. Fodd bynnag, nid yw gwasanaethau cymorth ieuenctid yn aml yn rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i fedrau gwell. Hefyd, i rai pobl ifanc, nid yw'r gwaith a wnânt yn ddigon heriol ac mae hyn yn golygu nad yw eu dysgu a'u medrau yn gwella cystal ag y gallent.

32. Yn y system Cyfiawnder Ieuenctid, mae dysgwyr yn y tri lleoliad diogel a arolygwyd gennym yn gwella eu medrau sylfaenol a'u medrau allweddol ac maent yn falch o'u cyflawniadau, yn aml am y tro cyntaf. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliadau hyn yn darparu ar gyfer dysgwyr mwy abl trwy gyrsiau lefel uwch fel rhan o'u cwricwlwm.

33. Mewn colegau addysg bellach, mae datblygiad medrau allweddol dysgwyr yn dda ar y cyfan. Mae mwy a mwy o ddysgwyr yn ennill gwobrau medrau allweddol, yn enwedig ar lefel 3 ac yn y medrau allweddol ehangach. Fodd bynnag, mae cyfran gyffredinol y dysgwyr sy'n ennill gwobrau medrau allweddol yn amrywio gormod rhwng meysydd dysgu a cholegau.

34. Mewn dysgu yn y gwaith, gwelsom fod y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni mewn meysydd dysgu unigol wedi gwella. Mae'r rhain wedi deillio o:

ddatblygu medrau galwedigaethol da iawn i fodloni anghenion y diwydiant; a

chwblhau cymwysterau medrau allweddol ar ddechrau rhaglen hyfforddi'r dysgwyr;

35. Mewn dysgu oedolion yn y gymuned, mae llawer o'r dysgwyr sy'n oedolion yn llawn cymhelliant, yn frwdfrydig ac yn helpu ei gilydd i ddysgu. Maent hefyd yn gweithio'n dda yn annibynnol ac yn defnyddio eu medrau newydd yn eu bywydau bob dydd.

**Crynodeb**

36. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyllid a gânt. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn pryderu digon ynglyn â chael gwerth am arian.

37. Nid yw'r adeiladau mewn ysgolion uwchradd yn aml cystal ag y dylent fod. Mae bron i hanner yr ysgolion uwchradd a arolygwyd gennym yn cynnwys rhai agweddau gwael o ran eu hadeiladau.

38. Bron ym mhob ysgol sydd ag adeiladau newydd neu adeiladau wedi'u hadnewyddu, rydym wedi gweld gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a safonau gwaith disgyblion.

39. I wneud pob adeilad ysgol yn addas at ei ddiben, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael mynediad at gyllid cyfalaf priodol. Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion, yn eu tro, wneud yn siwr bod cyswllt clir yn eu cynlluniau rhwng y strategaethau ar gyfer gwella adeiladau ysgol, lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion a gwella safonau.

40. Dim ond tua thraean o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â chynlluniau clir ynglyn â sut mae arnynt eisiau moderneiddio eu hysgolion, ac maent yn gweithredu ar y cynlluniau hyn, sy'n gynnwys cael gwared ar leoedd heb eu llenwi mewn ysgolion a gwella adeiladau neu gau ysgolion. Mae hyn yn golygu bod y broblem o ran lleoedd heb eu llenwi ac adeiladau ysgol sy'n cael eu cynnal yn wael yn gwaethygu.

41. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae mwyafrif y disgyblion yn parhau i ddatblygu medrau allweddol da ar draws y cwricwlwm er bod safonau yn y dangosydd pynciau craidd (Cymraeg/Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) wedi gwastadu.